

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Benfro

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Benfro ar gyfer y flwyddyn 2013–14

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2013 - 2014

Cyngor Lleol: Cyngor Sir Penfro

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2013- 14 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Benfro a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Bu gwelliant parhaus yng ngwasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Penfro trwy gydol y flwyddyn. Mae'r cyngor wedi parhau i fuddsoddi yng ngweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol yn y gwasanaethau i oedolion a phlant, er mwyn cynorthwyo'r argymhellion o'i strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer gwaith cymdeithasol.

Cyfarwyddwr corfforaethol y gwasanaethau plant ac addysg yw'r cyfarwyddwr statudol gwasanaethau cymdeithasol. Cwblhawyd y strwythur rheoli uwch newydd wrth benodi'r cyfarwyddwr gofal i oedolion a'r pennaeth gwasanaethau plant. Yn ogystal, llanwyd swydd newydd y pennaeth comisiynu strategol ar y cyd yn ystod 2014.

Gwelwyd pobl yr oeddent yn cael gwasanaethau oedolion yn parhau i gael budd gan y pwyslais ar gynorthwyo pobl yn y gymuned trwy gyfrwng prosiect 'gofal yn nes at y cartref' ac mae'r cynnydd ar hwn yn cael ei gynnal. Mae sicrhau cynnydd wrth integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn allweddol er mwyn helpu pobl i barhau i fod yn annibynnol ac i fanteisio i'r eithaf ar wasanaethau cymunedol. Mae'r holl bartneriaid wedi gwneud ymrwymiad i gyflawni hyn.

Mae gwasanaethau plant wedi llwyddo i gynnal y gwelliant y sylwyd arno y llynedd. Mae'r buddsoddiad a wnaethpwyd yn y gweithlu wedi datblygu arfer proffesiynol, gan arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer plant. Ym mis Mehefin 2014, gwnaeth Estyn ymweld â Sir Benfro er mwyn adolygu'r cynnydd a wnaethpwyd gan y cyngor yn erbyn yr argymhellion sy'n weddill ac y cawsant eu gwneud yn dilyn yr arolygiad addysg a gynhaliwyd ym mis Hydref 2012. Barnwyd bod y cyngor wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn y cynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad.

Gan ymateb i fframwaith strategol Llywodraeth Cymru '*Mwy na Geiriau*', '*More than Just Words*', y fframwaith strategol ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg yn y gweithlu gofal cymdeithasol, mae'r cyngor wedi sicrhau bod mwy o hyfforddiant Gymraeg ar gael i'r staff, a'i fod yn hyblyg. Ei fwriad yw sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn datblygu i fod yn rhan greiddiol o'r gwasanaethau gofal a ddarparir.

Er y bu buddsoddiad sylweddol yn y gweithlu gwasanaethau cymdeithasol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r cyngor bellach wedi gosod targedau i arbed £1.1 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf, sy'n cyfateb â gostyngiad o 2.6% yng nghyfanswm y gwariant. Mae'n hyderus y bydd modd cyflawni hyn trwy gyfrwng gweithgarwch comisiynu a chaffael effeithiol a gwell. Mae'r cyngor yn adolygu ei leoliadau costus y tu allan i'r sir a darpariaeth ei wasanaethau ailalluogi a gofal yn y cartref mewnol ar gyfer y dyfodol.

Yn adroddiad y cyfarwyddwr ac yn adroddiadau'r penaethiaid gwasanaeth, mae'r cyngor yn dangos ei fod yn meddu ar weledigaeth eglur o'r ffordd y caiff gofal cymdeithasol ei ddarparu dros y blynyddoedd i ddod. Disgrifir y bwriadau strategol yn y cynllun integredig sengl, ac mae hyn yn cael ei drosi i'r cynllun gwella ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Ceir cyfeiriad ac ymrwymiad eglur i sicrhau bod gwaith i ailfodelu'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i bobl ar sail eu hanghenion a'u dymuniadau. Bydd yr uchelgais hon, os caiff ei chyflawni - yn cynorthwyo gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Mae'r cyngor wedi dangos gwelliannau cadarnhaol ar draws yr holl feysydd gwasanaeth ar gyfer oedolion a phlant. Mae'r meysydd y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn eglur, yn yr un modd â chynlluniau cyflawni yn y dyfodol. Mae systemau effeithiol mewn grym er mwyn monitro perfformiad yn erbyn yr amcanion allweddol a nodwyd yn y cynlluniau busnes ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant.

Maes datblygu a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn ystod 2013 - 14
Dylai'r cyngor ystyried sut y bydd y cynllun comisiynu cyffredinol arfaethedig yn arwain at ostyngiad yng nghost gwasanaethau i oedolion	Mae'r cyngor wedi datblygu canolbwynt comisiynu ar y cyd gan adlewyrchu blaenoriaethau darparu, ansawdd a gwerth am arian. Rhoddwyd contract i ddarparwr annibynnol i ddarparu gwasanaethau ailalluogi a gofal yn y cartref mewnol o 1 Hydref 2014
Dylai'r cyngor wella'r trefniadau comisiynu a monitro contractau er mwyn siapio'r farchnad.	Mae cynllun comisiynu 2012-16 yn nodi bwriadau statudol, gan nodi'r bwriadau er mwyn datblygu datganiad safle yn y farchnad mewn pedwar maes gwasanaeth penodol. Mae'r cyngor yn bwriadu gweithredu hyn erbyn mis Ebrill 2015.
Dylai'r cyngor sicrhau bod trefniadau diogelu oedolion yn cael eu hadolygu o fewn y strwythur tîm newydd er mwyn sicrhau canlyniadau o ansawdd a chysondeb o ran arfer.	Gwnaeth swydd ymarferwr uwch ychwanegol gynyddu'r gallu a'r profiad i ddelio gyda diogelu oedolion. Mae'r strwythur is-adrannol newydd ar gyfer gofal i oedolion yn cynnwys rheolwyr tîm y maent yn gyfrifol am gyflawni rôl y rheolwr arweiniol dynodedig mewn achosion diogelu. Bydd hyn yn datblygu'r gallu ymhellach er mwyn rheoli'r gwaith o ddiogelu oedolion agored i niwed a chynnal ymchwiliadau.
Dylai'r cyngor ystyried sut y mae modd iddo ddatblygu'r gwaith a wnaethpwyd eleni gyda gofawyr er mwyn sicrhau	Gwelwyd nifer y gofawyr a wnaeth gytuno i asesiad neu adolygiad yn codi o 351 y llynedd i 423 yn 2013/14. Ar hyn

bod mwy o asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnal.	o bryd, mae'r cyngor yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd ar strategaeth ofalwyr ar y cyd a bydd grŵp gofalwyr yn cael ei sefydlu.
Mae angen i'r cyngor ddadansoddi'r rhesymau dros y cynnydd yn nifer y cyfeiriadau amddiffyn plant ac effaith hyn ar lwyth achosion gweithwyr cymdeithasol.	Nododd y cyngor bod y cynnydd yn nifer y ceisiadau yn gysylltiedig gyda nifer uchel o swyddi gwag a'r ffaith nad oes modd gweithio mewn ffordd ataliol gyda theuluoedd. Mae'n cynnal archwiliad thematig o weithgarwch a47, er mwyn dangos tystiolaeth o'r ffaith bod trothwyon yn cael eu gweithredu mewn ffordd gyson a bod plant yn cael eu cofrestru mewn ffordd briodol.
Ar ôl datblygu'r offeryn asesu integredig diwygiedig, dylid cynnal gwerthusiad o'i effeithiolrwydd wrth wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc.	Datblygwyd ffurfiau newydd ar gyfer asesiadau a chynlluniau gofal, gan gynnwys offeryn asesu craidd integredig sy'n galluogi gweithwyr cymdeithasol i ddefnyddio un asesiad ar gyfer amrywiaeth o ddibenion. Mae eu defnydd wedi cael ei fonitro ac mae'r ffurf wedi cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn ei gyflwyno yn 2014-15.
Dylai'r adolygiad o leoliadau costus ystyried datblygu gofal, cymorth, llety a modelu gwahanol ddewisiadau ar gyfer pobl y mae ganddynt anabledd dysgu yn y dyfodol.	Mae adolygiad ar y cyd o leoliadau costus wedi cael ei gwblhau, sy'n datblygu adolygiad Alder. Mae hon yn elfen bwysig o waith fel rhan o'r broses o ailfodelu'r gwasanaeth a ddarparir. Mae datganiad manwl am y sefyllfa yn cael ei ddatblygu, a fydd yn cyfrannu at y dull gweithredu ar gyfer y dyfodol.
Gwella'r cymorth a roddir i bobl ifanc pan fyddant yn 18 oed ac ystyried sut y byddai modd gwella gwaith pontio.	Mae gweithiwr cymdeithasol pontio wedi cychwyn yn y swydd a chytunwyd ar drefniadau interim er mwyn ychwanegu at y protocol pontio presennol, ar ôl i'r adolygiad o'r gwasanaethau ar gyfer plant anabl yn 2014-15 gael ei gwblhau.
Dylai'r cyngor barhau i ddatblygu gweithdrefnau eglur i'w defnyddio mewn ffordd leol ynghylch uwchgyfeirio pryderon mewn cartrefi gofal er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a bod gweithgarwch penderfynu yn gyson ac wedi'i seilio ar dystiolaeth.	Mae adolygiad o ymateb y cyngor i'r protocol uwchgyfeirio pryderon wedi cychwyn ar y cyd gyda phartneriaid iechyd. Bydd newidiadau yn cynnwys y datblygiad sefydliadol a welwyd yn ddiweddar ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion.

Meddu ar sicrwydd bod trefniadau llywodraethu diogelu oedolion lleol cadarn yn cael eu cynnal yn ystod y broses o bontio i'r bwrdd diogelu rhanbarthol.	Mae'r pwyllgor amddiffyn oedolion yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd. Mae'r grŵp diogelu a sicrhau ansawdd yn cyfarfod bob mis, gan ystyried tueddiadau, adolygiadau a darparwyr penodol mewn ffordd drefnus, gan ymyrryd mewn ffordd ragweithiol mewn meysydd lle y ceir pryder.
Symud ymlaen ei ddatblygiad ym maes dewisiadau tai â chymorth i bobl ifanc.	Llwyddwyd i sicrhau cyllid cefnogi pobl er mwyn datblygu'r cynnig tai â chymorth craidd a chlwstwr ar gyfer pobl ifanc yn ystod 2014-15. Caiff y broses o ddarparu hyfforddiant er mwyn cynorthwyo datblygiad sgiliau ar gyfer byw bywyd annibynnol ei gydlynw trwy gyfrwng grŵp llywio digartrefedd ymhlith pobl ifanc.
Parhau i wella'r trefniadau gwaith rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn rhoi sylw i'r gwaddol diogelu.	Mae'r trefniadau gwaith rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol lawer yn well dan y strwythur newydd. Mae'r pennaeth gwasanaethau plant yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r cyfarwyddwr corfforaethol. Datblygwyd trefniadau er mwyn cael trosolwg eglur o'r holl honiadau ynghylch camdriniaeth broffesiynol.
Mae angen i'r cyngor sicrhau bod y rôl, y diben a'r cyfeiriad o fewn y tîm rhianta corfforaethol yn eglur ac yn cael ei gefnogi, ynghyd â rhoi sylw i'r diwylliant tîm.	Mae'r broses o ailstrwythuro gwasanaethau plant wedi arwain at rolau ac atebolrwydd wedi'u diffinio mewn ffordd eglur ar gyfer rheolwyr tîm a gweithwyr.
Dylai'r cyngor fonitro gallu a pherfformiad parhaus y tîm plant mewn angen.	Mae'r ailstrwythuro wedi arwain at rolau a disgwyliadau eglur gan reolwyr uwch, ac mae hyn yn cael ei graffu yn rheolaidd. Mae tair o blith y bedair swydd wag wedi cael eu llenwi.
Trosolwg parhaus o drefniadau craffu er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol wrth sicrhau gwelliant a llywodraethu da ar gyfer yr holl wasanaethau diogelu.	Caiff y pwyllgorau craffu eu harwain mewn ffordd gadarn gan gynghorwyr nad ydynt yn ofni herio swyddogion ynghylch diogelu - mae AGGCC wedi mynychu cyfarfodydd pwyllgorau

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Cyfarfu AGGCC gydag uwch reolwyr y cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu cyffredinol, gan gwblhau rhaglen flynyddol yr arolygiadau o leoliadau a gwasanaethau rheoleiddiedig y cyngor ar gyfer oedolion a phlant. Bu AGGCC yn adolygu ymateb y cyngor i weithrediad Mesurau Iechyd Meddwl a Gofalwyr (Cymru) 2010 yn benodol.

Bu'r cyngor yn cymryd rhan mewn adolygiad thematig ar draws yr holl gynghorau yng Nghymru ynghylch trefniadau comisiynu a hefyd, yr adolygiad cenedlaethol o amddifadiad diogelwch rhyddid dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Roedd yr adolygiad comisiynu yn canolbwyntio ar gomisiynu gofal a chymorth mewn ffordd effeithiol ar gyfer pobl y mae ganddynt ddementia a'u gofalwyr. Er nad oedd y cyngor yn destun unrhyw waith maes arolygu yn y naill adolygiad na'r llall, gwnaeth gymryd rhan yn yr arolygon a wnaeth gyfrannu at ganlyniadau'r ddau adroddiad arolygu cenedlaethol, nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi eto. Yn ogystal, bu'r cyngor yn cymryd rhan yn yr Arolygiad Cenedlaethol o ddiogelu a chynllunio gofal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n Gadael Gofal, y maent yn dangos ymddygiad agored i niwed neu beryglus ('arolygiad plant sy'n derbyn gofal').

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

- Cynnydd o ran ailfodelu gofal cymdeithasol i blant ac oedolion.
- Gwasanaethau atal ac ymyrraeth yn ystod y blynyddoedd cynnar.
- Trefniadau trosolwg a chraffu.
- Cynnydd ar y canlyniadau a'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad o blant sy'n derbyn gofal.
- Cynnydd o ran pa mor dda y mae'r cyngor, fel y corff goruchwyllo, yn ymateb i niferoedd cynyddol y ceisiadau amddifadiad diogelwch rhyddid (DoLS).
- Bydd AGGCC yn cyfrannu at adolygiad a arweinir gan Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn archwilio a yw cynghorau yn cynnig cymorth effeithiol i bobl hŷn fyw bywyd annibynnol, gan gynnwys trwy gyfrwng gwaith cydgysylltiedig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Perfformiad

Llunio gwasanaethau

Oedolion

Mae'r cyngor wedi cryfhau ei drefniadau comisiynu ar y cyd trwy fuddsoddi mewn swydd pennaeth gwasanaeth comisiynu newydd. Ceir ymrwymiad eglur yn y cynllun comisiynu a'r cynllun integredig sengl er mwyn sicrhau dull gweithredu ar y cyd tuag at gomisiynu ar draws y cyngor a gyda phartneriaid iechyd. Yn ogystal, mae'n cydnabod mewn ffordd eglur y sialensiau sy'n deillio o'r ffaith bod cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio a'r cynnydd dilynol yn y galw am wasanaethau a chymorth y bydd angen i bobl y mae ganddynt anghenion gofal cymhleth ei gael.

O fewn y fframwaith comisiynu strategol, ceir tystiolaeth bod y cyngor yn rhoi pwyslais ar greu gallu cymunedol, ynghyd ag atal a hunan-gymorth. Ei fwriad

strategol yw manteisio i'r eithaf ar annibyniaeth pobl trwy ddarparu gwasanaethau ailalluogi ac adsefydlu integredig. Pan fydd angen gofal ar bobl am gyfnod hwy, mae'r cyngor yn bwriadu sicrhau bod mwy o bwys yn cael ei roi ar lais pobl pan fyddant yn mynegi sut y maent yn dymuno i'w hanghenion gael eu bodloni. Mae'r cyngor yn datblygu rhagor o gyfleusterau gofal ychwanegol yng ngogledd y sir a fydd yn rhoi cymorth pellach i weithgarwch ailalluogi a sicrhau cymaint o annibyniaeth ag y bo modd i bobl y maent yn dymuno cael eu cynorthwyo yn eu cartref eu hunain. Fel rhan o'r datblygiad, ceir canolfan iechyd, canolfan ddydd a safle cymunedol mawr sy'n adlewyrchu'r cynlluniau ar gyfer cymunedau cefnogol.

Mae'r cyngor wedi adolygu ei drefniadau comisiynu a monitro contractau ac mae wedi nodi'r angen am fwy o allu o fewn y tîm er mwyn sicrhau canlyniadau o ansawdd. Mae adolygiad o'r holl gontractau gyda darparwyr yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, a bydd yn cynnig ffocws ar gyfer datblygiadau pellach yn y dyfodol. Mae arolygwyr AGGCC yn parhau i nodi ymatebion da i'r broses o fonitro ac adolygu contractau yn dilyn cyfeiriadau diogelu unigol. Ceir ymgysylltu da gyda darparwyr gwasanaethau, sy'n cynnwys fforwm sefydledig ar gyfer gofal cartref. Mae'r cyngor yn gobeithio sefydlu fforwm cartref gofal yn ystod y flwyddyn i ddod. Ailosodwyd y tendr ar gyfer y trefniadau cytundebol gyda darparwyr gofal cartref eleni a bydd contractau newydd gydag oddeutu 20 o ddarparwyr yn cychwyn ar 1 Medi 2014. Yn ogystal, mae'r cyngor wedi tendro ei holl ofal cartref ac ailalluogi mewnol i ddarparwr annibynnol, a rhagwelir y bydd y trefniant hwn yn cychwyn ar 1 Hydref 2014.

Mae fframwaith sicrhau ansawdd yn cael ei sefydlu, mae'r cyngor yn bwriadu ymgynghori gyda'r sector cyn y caiff hyn ei weithredu a chynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol gyda chyrff sy'n cynrychioli darparwyr.

Plant

Llwyddwyd i gyflawni bwriad y cyngor y llynedd i gryfhau cysondeb y gofal i blant a phobl ifanc trwy integreiddio gwasanaethau plant ac addysg o fewn cyfarwyddiaeth newydd i blant ac ysgolion. Mae'n amlwg bod y newid strwythurol hwn wedi gwella cyfathrebu, arfer proffesiynol, cydweithio mwy effeithiol a dealltwriaeth a pherchnogaeth gynyddol ac ar y cyd o faterion diogelu ym maes addysg.

Mae'r ganolfan Dechrau'n Deg ym Mhennar a gwasanaeth tîm o amgylch y teulu wedi parhau i ddatblygu ac maent yn dangos tystiolaeth o ganlyniadau gwell i blant a theuluoedd. Mae'r timau hyn yn integredig ac mae cydweithwyr iechyd a'r cyngor lleol wedi'u cydleo, ac adroddir eu bod yn gweithio'n dda. Mae'r cyngor wedi comisiynu ymchwil ynghylch effeithiolrwydd darpariaeth Dechrau'n Deg ac maent yn ymestyn y ddarpariaeth i ardaloedd eraill yn y sir lle y gwelir amddifadedd – gyda'r bwriad o gyrraedd 165 o blant ychwanegol. Mae gwasanaeth y tîm o amgylch y teulu wedi parhau i ddatblygu trwy integreiddio gweithwyr o'r gwasanaeth cynhwysiant a lles gyda chydweithwyr o faes addysg, gan arwain at un gwasanaeth cymorth i deuluoedd. Mae'r cyngor yn rhagweld y bydd gwaith datblygu pellach yn digwydd, ond mae eisoes wedi gweld canlyniadau cadarnhaol a llai o bobl yn gorfod mynd i mewn i gael gofal o ganlyniad i'r ymyriadau hyn.

Mae'r tîm integredig cymorth i deuluoedd a sefydlwyd ar y cyd gydag awdurdodau eraill yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer y cyfeiriadau. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i weithgarwch codi ymwybyddiaeth ar draws y cyngor, y sector gwirfoddol a phartneriaid. Mae'r cyngor wedi nodi bod angen cynnal adolygiad o'r holl wasanaethau i blant sydd ag anableddau o ganlyniad i'r dyblygu posibl wrth ddarparu, ac mae'n awyddus i deuluoedd fod yn eglur ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael i'w cynorthwyo. Y bwriad yw moderneiddio'r gwasanaethau er mwyn darparu model galluogi mwy cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar annibyniaeth, gyda chymorth yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen.

Mae'r cyngor wedi bod yn hanfodol bwysig wrth ddatblygu'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol law yn llaw gydag awdurdodau cyfagos Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Phowys. Yn y sir, gwelwyd cynnydd yn nifer y penderfyniadau 'dylid eu lleoli' a gwelliant yn yr amserlenni rhwng gwneud penderfyniadau a lleoli plant gyda theuluoedd mabwysiadu.

Meysydd o gynnydd

- Sefydlu'r canolbwynt comisiynu ar y cyd.
- Mae'r timau adnoddau cymunedol yn sicrhau gwelliant wrth integreiddio gwasanaethau.
- Datblygiad pellach y ganolfan deuluoedd ym Mhennar.
- Datblygiad y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol.
- Cryfhau gwasanaeth y tîm o amgylch y teulu.

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r cyngor ystyried a gweithredu canfyddiadau'r adolygiad o'r gwasanaethau sy'n bodloni anghenion plant a theuluoedd y mae ganddynt anabledd.

Cael help

Oedolion

Mae'r cyngor wedi cynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol cymwys y mae'n eu cyflogi. Mae hyn wedi arwain at weithgarwch penderfynu mwy effeithiol yn unol â'u hegwyddor o 'wneud y penderfyniad iawn y tro cyntaf' er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol ac wedi'i dargedu er mwyn bodloni anghenion gofal a chymorth pobl.

Mae'r cyngor wedi llwyddo i weithredu gofynion Mesur Gofalwyr (Cymru) 2010. Mae'n contractio gyda nifer o sefydliadau o'r trydydd sector sy'n cynorthwyo gofalwyr neu y maent yn cynnig seibiant i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r gwasanaeth gwybodaeth i ofalwyr yn cynnig cyngor a gwybodaeth i nifer fawr o ofalwyr trwy gyfrwng bwletinâu newyddion rheolaidd a'r 'Newyddiadur Gofalwyr'. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth gwybodaeth yn cyfeirio at sefydliadau a grwpiau cymorth amrywiol y byddai modd iddynt gynnig cymorth efallai. Mae'r

cyngor wedi hyrwyddo manteision yr asesiad gofalwyr ymhlith ei staff. Mae chwe deg dau o staff, gan gynnwys 18 o staff iechyd, wedi mynychu'r hyfforddiant ynghylch yr asesiad gofalwyr, ac mae'r cyngor yn bwriadu ymestyn yr hyfforddiant hwn yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r strategaeth gofalwyr, sy'n rhan o'r cynllun integredig sengl, yn nodi gweledigaeth bum mlynedd i ysgogi gwaith partneriaeth. Llwyddodd y cyngor i gynyddu nifer yr asesiadau i ofalwyr o 351 y llynedd i 425 yn 2013/14. Mae hwn yn gam cadarnhaol wrth sicrhau bod modd i bobl gael help pan fyddant ei angen, ac mae'n dangos ymrwymiad at gydnabod pwysigrwydd rôl y gofalwr.

Pan fydd gan bobl anabledd dysgu neu broblemau iechyd meddwl, mae'r cyngor, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn comisiynu gwasanaeth cymorth ac eiriolaeth gan sefydliadau o'r trydydd sector. Yn ystod y cyfnod pan drefnwyd y byddai cartref gofal ar gau yn ddiweddar, bu Age Cymru Sir Benfro yn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Bu hyn o fudd ac fe'i croesawyd gan y bobl hynny yr effeithiwyd arnynt gan y cyfnod pan fu'r cartref ar gau.

Mae modd i bobl fanteisio ar ystod eang o gyngor, gwybodaeth a chymorth trwy gyfrwng gwefan y cyngor.

Plant

Mae'r cynllun er mwyn recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol wedi bod yn llwyddiannus, wrth ddenu staff newydd i'r cyngor a hefyd, wrth gadw'r staff presennol. Bellach, mae gan yr holl dimau drefniadau rheoli parhaol mewn grym ac fe'u rheolir gan weithwyr cymdeithasol cymwys. Mae rheolwyr yn adrodd bod gan staff lwyth achosion y maent yn haws i'w trafod, a bod hyn yn gwella'r arfer ym maes gwaith cymdeithasol.

Ailfodelwyd y trefniadau mynediad ar gyfer y gwasanaethau plant y llynedd ac mae hyn wedi golygu bod gan weithwyr cymdeithasol fwy o amser nawr i wneud gwaith uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd. Mae'r cyngor yn gweithredu canolfan cyswllt cyntaf, sy'n gyfrifol am ddelio â'r holl gyfeiriadau ac eithrio cyfeiriadau amddiffyn plant. Mae'r tîm yn sicrhau bod sylw yn cael ei roi i'r holl gyfeiriadau y mae angen gweithredu yn eu cylch, ar yr un diwrnod.

Mae'r cyngor yn adrodd bod yr holl asesiadau cychwynnol yn cael eu cynnal gan weithwyr cymdeithasol cymwys. Mae hwn yn gam cadarnhaol, gan arwain at gynnydd yng nghanran yr asesiadau cychwynnol a gynhaliwyd, lle y ceir tystiolaeth bod y plentyn wedi cael eu gweld gan y gweithiwr cymdeithasol. Yn flaenorol, roedd AGGCC wedi adrodd bod angen i ansawdd y gwaith dadansoddi mewn asesiadau wella. O ganlyniad, datblygodd y cyngor offeryn asesu integredig diwygiedig. Datblygwyd ffurfiau newydd ar gyfer asesiadau a chynlluniau gofal, y maent yn cynnwys offeryn asesu craidd integredig, ac mae hyn yn galluogi gweithwyr cymdeithasol i ddefnyddio un asesiad at amrywiaeth o ddibenion. Mae'r cyngor wedi parhau i fonitro'r defnydd a wneir o'r ffurfiau diwygiedig hyn. Mae'n eu datblygu ymhellach fel bod gweithgarwch penderfynu yn fwy penodol.

Llwyddwyd i gynnal y perfformiad o ran amseroldeb y cyfeiriadau at wasanaethau plant ers y llynedd, gyda 98% o'r cyfeiriadau yn cael eu gweithredu mewn un diwrnod. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn awgrymu ymhellach bod y buddsoddiad a wnaethpwyd yn y gweithlu yn ystod y llynedd yn gam pwysig wrth sicrhau sefydlogrwydd a gwelliant parhaus yn y perfformiad. Caiff plentyn eu gweld gan weithiwr cymdeithasol a oedd yn cynnal asesiadau mewn 92% o'r asesiadau cychwynnol ac fe'u gwelwyd ar eu pen eu hunain mewn 61%, gyda 97% o'r asesiadau cychwynnol yn cael eu cwblhau cyn pen saith diwrnod. Hyd y cyfnod cyfartalog ar gyfer y rhai a oedd yn cymryd mwy o amser oedd 10 diwrnod. Cwblhawyd asesiadau craidd cyn pen 35 diwrnod mewn 94% o'r achosion a'r amser cyfartalog ar gyfer y rhai a oedd yn cymryd yn hirach oedd 43 diwrnod.

Mae nifer y plant y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant wedi gostwng yn sylweddol o'i gymharu â'r sefyllfa y llynedd, ac roedd y nifer wedi gostwng i 69 ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai'n ymddangos bod hyn o ganlyniad i'r gwaith ataliol sy'n cael ei wneud gan bod y sefyllfa staffio wedi cael ei chryfhau a'i sefydlogi. Nod y cyngor oedd gwella amseroldeb cyffredinol adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant mewn angen. Gwnaeth canran yr adolygiadau amddiffyn plant a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol aros yr un fath ag y llynedd; gwelwyd ychydig welliant yn yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal; a bu cynnydd sylweddol yn amseroldeb adolygiadau o blant mewn angen, o 65% y llynedd i 83% eleni.

Meysydd o gynnydd

- Datblygiad pellach gwaith ar draws y sir er mwyn cynorthwyo gofalmwr.
- Gwelliant parhaus o ran amseroldeb cyfeiriadau, asesiadau mewn gwasanaethau plant.
- Gostyngiad yn nifer y plant sy'n cael eu cofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant.
- Y cynnydd sylweddol yn amseroldeb adolygiadau o blant mewn angen.

Y gwasanaethau a ddarparwyd

Oedolion

Mae prosiect Gofal yn Nes at y Cartref wedi dod i ben a bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi a fydd yn nodi meysydd eraill lle y gallai fod modd ailadrodd y model. Dros fisoedd y gaeaf yn arbennig, llwyddodd y prosiect i gynorthwyo wrth ryddhau 252 o bobl o'r ysbyty mewn ffordd ddiogel, gan arwain at ostyngiad mewn achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol. Yn ogystal, mae gwaith y timau adnoddau cymunedol yn y bedair ardal ddaearyddol yn y sir yn dangos bod hyn yn nodi ac yn cynorthwyo pobl yn y gymuned gan atal achosion lle y bydd yn rhaid i bobl fynd i'r ysbyty yn annisgwyl. Caiff trefniadau rheoli achosion y bobl hyn eu cydlynu gan y timau cymunedol integredig.

Mae gwaith trefniant cydweithredol Canolbarth a Gorllewin Cymru i adolygu lleoliadau costus wedi cychwyn ac mae cyfarfodydd gyda'r cyngor wedi dynodi bod hwn yn faes lle y gwelir cyfle go iawn i leihau'r costau ac i gynnig her pan geir gwastraff posibl. Mae hyn o bwysigrwydd penodol wrth i'r cyngor geisio ailfodelu

gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar a chynyddu'r gwasanaethau ailalluogi presennol. Mae hyn yn datblygu'r adolygiad o'i wasanaethau anabledd dysgu ac mae'n elfen bwysig o'r gwaith fel rhan o'r ymdrech i ailfodelu'r gwasanaeth a ddarparir. Datblygwyd datganiad sefyllfa fanwl a fydd yn cyfrannu at y dull gweithredu yn y dyfodol.

Gyda chymeradwyaeth aelodau'r cabinet, penderfynodd y cyngor gau cartref gofal mewnol, yn dilyn proses ymgynghori helaeth a reolwyd mewn ffordd dda gan y cyngor, a chafodd defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd eu cynorthwyo trwy'r broses gau gan drefniadau eiriolaeth.

Fel darparwr gwasanaethau, mae'r cyngor yn rhedeg pedwar cartref gofal nawr. Yn ystod y flwyddyn, penderfynodd y cyngor symud darpariaeth o'i wasanaeth gofal cartref mewnol a'i wasanaethau ailalluogi i'r sector annibynnol. Bydd hwn yn faes i'r cyngor ac i AGGCC ei fonitro yn ofalus er mwyn sicrhau bod y trefniadau newydd yn sicrhau canlyniadau i bobl.

Plant

Erbyn hyn, mae'r gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd (TICD) a gwasanaeth tîm o amgylch y teulu (TAT) wedi ymsefydlu ac maent yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd. Mae TAT wedi cynorthwyo 289 o deuluoedd eleni, ac o blith y rhain, nid oedd angen unrhyw ymyrraeth pellach ar 101 ohonynt o ganlyniad i ganlyniadau cadarnhaol cynllun gweithredu tîm o amgylch y teulu. Dim ond 23 achos sydd wedi symud ymlaen i wasanaethau'r brif ffrwd.

Mae bron i fil o blant wedi cael budd gan raglen Dechrau'n Deg eleni ac mae'r cyngor yn bwriadu cynyddu'r rhif hwn i 165 o blant pellach y flwyddyn nesaf mewn ardaloedd ychwanegol o amddifadedd yn y sir. Ar hyn o bryd, mae AGGCC yn cofrestru'r ganolfan yn Ysgol Meads, a fydd yn un o'r ardaloedd a nodir.

Mae Gweithredu dros Blant yn darparu gwasanaeth i ofalwyr ifanc yn Sir Benfro ar ran y cyngor. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth un i un, grwpiau cymorth, grwpiau ffocws a gweithgareddau yn ystod y gwyliau. Yn ystod 2013/14, neilltuwyd 218 lle i ofalwyr ifanc ar raglenni gweithgarwch yn ystod y gwyliau. Mae arolygon a gynhaliwyd ymhlith y plant a'r bobl ifanc hyn yn nodi ei fod wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i'w bywydau, gan roi canlyniadau cadarnhaol iddynt.

Fel rhan o'i gyfrifoldebau fel rhiant corfforaethol, mae'r cyngor wedi mabwysiadu polisi Llywodraeth Cymru 'Pan Fydda i'n Barod' ar gyfer ei blant sy'n derbyn gofal yn gynnar. Dan y cynllun newydd hwn, mae gan y cyngor lleol ddyletswydd i gynorthwyo plant cymwys i aros gyda'u gofalwr maeth ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 oed, pan fydd y person ifanc wedi gofyn am y cymorth hwn. Hyd yn hyn, mae'r cyngor eisoes yn cynorthwyo naw o bobl ifanc y maent wedi gofyn am y cymorth hwn. Mae uned gwyliau byr Tŷ Holly yn wasanaeth seibiant a ddarparir gan y cyngor, ac sy'n darparu gofal i blant rhwng wyth a 18 oed. Daeth arolygiad AGGCC i'r canlyniad bod y gwasanaeth yn cael ei redeg mewn ffordd dda a'i fod yn cynnig canlyniadau da i blant a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Meysydd o gynnydd

- Datblygiad parhaus y tîm o amgylch y teulu a'r gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd.
- Cymorth i ofalwyr ifanc.
- Cymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal, fel y nodir yn 'Pan Fyddai i'n Barod'.

Yr effaith ar fywydau pobl

Plant

Mae'r cyngor wedi cryfhau ei drefniadau er mwyn rheoli honiadau o gamdriniaeth broffesiynol, sy'n datblygu ac yn ychwanegu at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae Estyn wedi dilysu'r dull gweithredu yn dilyn ei ymweliad monitro ym mis Tachwedd 2013, gan nodi bod '*y cyngor wedi sicrhau cynnydd cyflym iawn er mwyn trawsnewid trefniadau diogelu mewn ffordd effeithiol yn ei holl wasanaethau addysg a'i ysgolion*'. Mae'r pennaeth gwasanaethau plant yn eglur ynghylch ei rôl a'i gyfrifoldebau ac mae ganddo drosolwg a gwybodaeth fanwl am yr holl faterion diogelu ar draws y cyngor. Caiff hyn ei gynorthwyo gan fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer diogelu, lle y caiff adroddiadau eu harchwilio a'u monitro bob mis.

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant y mae eu henw yn ymddangos ar y gofrestr amddiffyn plant, o 123 y llynedd i 69 yn 2013/14, ac mae gwaith ymchwil cychwynnol yn awgrymu y gallai hyn fod o ganlyniad uniongyrchol i'r gallu i wneud gwaith ataliol gyda theuluoedd gan bod y gweithlu wedi cynyddu a sefydlogi erbyn hyn. Mae data ynghylch y perfformiad yn dynodi bod y presenoldeb yn yr ysgol ymhlith disgyblion uwchradd sy'n derbyn gofal yn isel, yn yr un modd â chyrhaeddiad addysgol yr holl blant sy'n derbyn gofal ar lefel gynradd ac uwchradd.

Mae bwrdd rhianta corfforaethol llawer cryfach, sy'n cynnwys arweinyddiaeth ar draws y pleidiau, yn gwneud gwaith i graffu a monitro'r trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Bu'r bwrdd yn hanfodol wrth wneud y penderfyniad i fabwysiadu egwyddorion 'Pan Fyddai i'n Barod' a gwelir bod y penderfyniad hwn eisoes wedi cynorthwyo nifer o rai ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r tîm rhianta corfforaethol yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol sy'n cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maethu hirdymor a'r rhai sy'n gadael gofal yn bennaf. Bu mwy o sefydlogrwydd yn y tîm hwn eleni o ganlyniad i weithgarwch i recriwtio aelodau i'r gweithlu. Fodd bynnag, mae canran y bobl ifanc y mae'r cyngor yn cael cyswllt gyda nhw ac y maent yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant, yn isel, ac unwaith eto, mae hyn yn cysylltu gyda chyfrifoldebau rhianta corfforaethol er mwyn sicrhau canlyniadau da i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

Cynhaliwyd arolygiad plant sy'n derbyn gofal gan AGGCC eleni. Nodwyd nifer o elfennau cadarnhaol yn ystod yr arolygiad, a oedd yn dynodi bod y cyngor wedi cryfhau ei weithlu mewn ffordd sylweddol ym maes gwasanaethau plant, ei fod yn cynorthwyo staff ac, fel rhieni corfforaethol, bod ganddo drosolwg eglur o boblogaeth ei blant sy'n derbyn gofal. Nodwyd rhai meysydd i'w gwella a dylai'r

bwrdd rhianta corfforaethol ystyried y rhain a phennu camau gweithredu er mwyn ymateb iddynt cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r cyngor wedi sefydlu bwrdd lleol diogelu plant iau, sy'n gweithio ar y cyd gyda'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant statudol. Mae hyn yn rhoi mwy o gyfle i blant a phobl ifanc fynegi eu barn ynghylch materion sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd ar Hawliau'r Plentyn yn ffurfiol, gan ddangos bod llais plant yn cael ei werthfawrogi yn y cyngor.

Mae'r trefniadau er mwyn darparu gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol bellach wedi cael eu gwneud, ac fe'i lansiwyd yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2014 gydag awdurdodau cyfagos Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys.

Meysydd o gynnydd

- Y broses o symud i'r bwrdd mabwysiadu rhanbarthol.
- Datblygiad y fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer diogelu.
- Cryfhau'r bwrdd rhianta corfforaethol.

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r cyngor gwblhau'r adolygiad o'r ffordd y mae'n gweithredu canllawiau Uwchgyfeirio Pryderon er mwyn dangos tystiolaeth o'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i'r gwasanaethau hynny y mae'n eu comisiynu gan y sector annibynnol.
- Dylai'r cyngor sicrhau ymateb effeithiol i'r meysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad plant sy'n derbyn gofal.
- Dylai'r cyngor weithredu er mwyn gwella lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad addysgol gwael plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Dylai'r cyngor wella'i berfformiad wrth gynnal ymweliadau statudol gyda phlant sy'n derbyn gofal.

Gallu

Cyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r cyngor wedi gwneud buddsoddiad sylweddol yn y gweithlu gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau effeithiolrwydd y gweithlu trwy fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol. Mae ei strategaeth ar gyfer y gweithlu wedi sicrhau gwelliannau sylweddol ym maes gwasanaethau plant ac oedolion. Mae cyflwyno taliad atodiad y farchnad a chyflogau cymharol wedi arwain at lefelau recriwtio a chadw uwch. Mae'r gwasanaethau plant wedi cael budd sylweddol gan strategaeth y gweithlu ac mae'r cyngor bellach yn debygol o gyflawni'r targed o sicrhau tîm llawn o weithwyr cymdeithasol parhaol yn y dyfodol agos.

Ceir strwythur effeithiol er mwyn rheoli perfformiad. Mae'r penaethiaid gwasanaeth yn adolygu'r dangosyddion perfformiad yn rheolaidd. Trwy gyfrwng y systemau hyn, mae'r cyngor yn adrodd bod yr uwch reolwyr yn meddu ar drosolwg o'r dangosyddion allweddol, a bod modd iddynt gymryd camau unioni yn gynnar yn ôl yr angen.

Mae'r ffordd y mae'r cyngor yn rheoli cwynion yn dangos dull gweithredu ymatebol wrth ddelio gyda phryderon pobl. Mae'r cyngor wedi gweld cynnydd yn nifer y cwynion anffurfiol a ffurfiol yn y gwasanaethau plant ac oedolion. Mae'r cyngor yn archwilio ac yn monitro amrediad y cwynion y mae'n eu cael, gan ymateb i'r gwersi a ddysgwyd trwy, er enghraifft, ddarparu hyfforddiant ychwanegol i'r staff.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i'r cam o ddarparu gwasanaethau dwyieithog ac mae wedi datblygu cynllun gweithredu er mwyn cyflawni'r chwe amcan sy'n ymddangos yn 'Mwy na Geiriau'/'More Than Just Words', fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ym maes iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae'r gwaith wedi cychwyn ar y broses o nodi gallu ieithyddol y staff ac mae'r cyngor yn darparu amrediad o gyrsiau sy'n addas ar gyfer anghenion y gweithlu. Lluniwyd cynllun yr iaith Gymraeg interim cyn i safonau'r iaith Gymraeg ddod i rym. Penodwyd 'hyrwyddwr' o fewn y gyfarwyddiaeth i arwain y gwaith datblygu pwysig hwn.

Meysydd o gynnydd

- Buddsoddiad parhaus yng ngweithlu'r gwasanaethau oedolion a phlant.
- Datblygu cynllun gweithredu yr iaith Gymraeg.

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r cyngor sicrhau bod y swydd wag yn y tîm plant mewn angen yn cael ei llenwi er mwyn cynorthwyo gallu'r tîm.

Darparu cyfeiriad

Mae'n amlwg bod y strwythurau o fewn y gwasanaethau cymdeithasol yn galluogi arweinyddiaeth eglur ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth wedi cael budd gan strwythur rheoli uwch, sydd wedi sicrhau ansawdd a pherfformiad gwell, ynghyd â chefnogaeth weledyddol a chorfforaethol barhaus. Mae'r cynllun gwella sengl a'r cynllun gwella corfforaethol yn nodi'r weledigaeth a'r nodau ar gyfer gofal cymdeithasol mewn ffordd eglur. Mae'r cynlluniau yn nodi'r blaenoriaethau yn y cyfarwyddiaethau, gan ddangos sut y mae unigolion, timau ac adrannau yn gweithio tuag at ganlyniadau a rennir. Mae hyn yn digwydd ar adeg o newid deddfwriaethol yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a'r sialensiau ariannol parhaus y mae'r holl gynghorau yn eu hwynebu eleni.

Mae perthnasoedd gwaith da yn amlwg, ac mae'r aelodau yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch datblygiadau i'r gwasanaeth a'r perfformiad trwy gyfrwng y trefniadau craffu presennol. Yn unol â gwelliant cyffredinol ym maes llywodraethu, mae'r cyngor yn adrodd bod y trefniadau er mwyn craffu gofal cymdeithasol yn parhau i wella. Ceir protocol rhwng aelodau'r cabinet y mae ganddynt gyfrifoldebau diogelu arweiniol er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol ac er mwyn osgoi dyblygu. Mae AGGCC wedi cyfarfod gyda'r pwyllgorau diogelu yn ystod y flwyddyn. Mae'n amlwg bod yr adnodd a'r ymdrech sylweddol i gryfhau'r cymorth a gynigir i bwyllgorau trosolwg a chraffu a'r hyfforddiant a ddarparir i aelodau, wedi bod yn llwyddiant. Mae modd i aelodau herio swyddogion a sicrhau eu bod yn atebol.

Mae aelodau wedi cael hyfforddiant diogelu er mwyn codi ymwybyddiaeth ac maent yn

meddu ar ddealltwriaeth eglur o'u rôl. Mae'r grŵp trosolwg a chraffu yn monitro gwaith y tîm diogelu yn rheolaidd ac mae'r cydlynnydd yn adrodd i'r cyfarwyddwr ac i'r aelod cabinet ym mwrdd monitro diogelu gwasanaethau oedolion bob mis. Dangosir arweinyddiaeth wleidyddol gadarn gan yr aelod arweiniol dros ddiogelu. Mae rolau a chyfrifoldebau yn eglur a chaiff adroddiadau chwemisol eu hysgrifennu ar gyfer y cabinet a'r pwyllgor, gan ddangos atebolrwydd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn, trwy gyfrwng eu gwaith gyda'r cyngor eleni, wedi cydnabod y gwelliant yn nhrefniadau craffu y cyngor.

Meysydd o gynnydd

- Datblygiad gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth aelodau'r pwyllgorau trosolwg a chraffu.
- Sefydlogrwydd cyfeiriad ac arweinyddiaeth gadarn sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r rhaglen newid y mae angen ei chyflawni er mwyn ymateb i her Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Meysydd i'w gwella

- Datblygu'r gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gadarn i'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn ymateb mewn ffordd effeithiol i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) pan fydd yn dod i rym.